

anthem.

Cronfa Atsain - Canllawiau a Chwestiynau Cyffredin

Beth yw Atsain?

Crëwyd Cronfa Atsain gan Anthem i fynd i'r afael â rhwystrau i gerddoriaeth i bobl ifanc yng Nghymru, yn ogystal â chefnogi rhwydwaith ymarfer a fydd yn gyfle i rannu gwybodaeth a meithrin yr arfer o gydweithio. Ein meysydd blaenoriaeth presennol i'w hariannu yw

- Y blynyddoedd cynnar.
- Pobl ifanc anabl. Gall prosiectau y byddwn yn ceisio eu hariannu gynnwys datblygu arferion newydd, archwilio offerynnau ar gyfer cerddorion anabl, a datblygu llwybrau dilyniant ar draws y grwpiau oedran.
- Pobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn cerddoriaeth sy'n wynebu rhwystrau drwy amgylchiadau bywyd, materion daearyddol, hunaniaeth, cefndir neu iaith. Gallai'r materion allweddol y mae pobl ifanc yn eu hwynebu gynnwys diffyg rhwydweithiau, diffyg adnoddau, amddifadedd economaidd, arwahanrwydd gwledig, mynediad i bobl ifanc o gefndiroedd du, asiaidd ac ethnig amrywiol, mynediad i bobl ifanc yn y system ofal, mynediad i bobl ifanc â statws ffoadur neu fudwr.

A ydym yn gymwys i gael cyllid?

I fod yn gymwys i gael cyllid, rhaid i'ch sefydliad:

- Fod ag un o'r strwythurau llywodraethu canlynol a dogfen lywodraethu: Elusen / Cwmni Buddiannau Cymunedol / Sefydliad Buddiannau Cymunedol / Partneriaeth / Cwmni Cyfyngedig drwy Warrant
- Meddu ar gyfrif banc yn y DU ac yn gallu darparu set o gyfrifon
- Bod â pholisïau a gweithdrefnau diogelu ac amddiffyn plant perthnasol ar waith
- Bod yn gweithio yng Nghymru

Beth NAD ydym yn ei ariannu?

- Sefydliadau addysgol - Ysgolion a Cholegau
- Ffioedd dysgu unigol ar gyfer gwersi offerynnau
- Prynu offerynnau neu offer, ac eithrio fel rhan o brosiect mwy sy'n seiliedig ar weithgarwch
- Gweithgareddau cwricwlwm cerddoriaeth i gefnogi cymwysterau TGAU neu Safon Uwch
- Sefydliadau sy'n cael eu hariannu ar hyn o bryd, neu sydd wedi cael eu hariannu'n ddiweddar, gan y Cronfeydd Cerddoriaeth Ieuenctid Incubator neu Recharge. Siaradwch gyda ni cyn ymgeisio os ydych chi wedi derbyn cyllid Youth Music yn ddiweddar

- Gwaith sy'n cael ei wneud y tu allan i Gymru

Beth yw'r meini prawf ar gyfer ariannu?

Rydym eisiau cefnogi prosiectau

1. Sydd wedi nodi bylchau a heriau i bobl ifanc yn y ffyrdd y maen nhw'n gallu cael mynediad at gerddoriaeth
2. Sy'n gweithio i chwalu'r rhwystrau

hyn.

Bydd eich prosiect:

- Yn cynnig rhaglen sy'n gysylltiedig â cherddoriaeth i blant neu bobl ifanc sy'n wynebu rhwystrau yng Nghymru
- Yn cyflawni un neu fwy o feysydd blaenoriaeth Anthem
- Yn cynnwys cynllun gwerthuso i fyfyrion ar ganlyniadau'r prosiect
- Yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau allweddol eraill. Mae mathau o bartneriaethau y byddem yn dymuno eu hariannu'n benodol yn cynnwys gwaith partneriaeth rhwng sectorau, er enghraifft rhwng sefydliadau ieuenctid a sefydliadau cerddoriaeth.
- Mae llais ieuenctid yn golygu pan fo pobl ifanc yn dylanwadu ar sut mae prosiect yn cael ei redeg, er enghraifft, drwy wneud penderfyniadau, siapio sesiynau neu ymgymryd â rolau arwain. I gael canllawiau ac enghreifftiau o arferion gorau o ran datblygu llais ieuenctid cryf, ewch i adnoddau Share The Mic, Youth Music, sydd i'w gweld ar eu gwefan: <https://express.adobe.com/page/NxWT5kJ6Jk0ft/>
- Yn cyfrannu at gynaliadwyedd y prosiect

Am ba hyd y gall ein prosiect bara?

Bydd Atsain yn ariannu prosiectau sy'n para rhwng 6 a 24 mis. Noder bod yn rhaid i ddyddiad dechrau'r prosiect fod o leiaf undegdai wythnos ar ôl dyddiad cau cyfnod y gronfa, sef 31 Mawrth 2022.

Am faint o swm allwn ni wneud cais?

Bydd sefydliadau'n gallu gwneud cais am hyd at £10,000 ond rydym yn disgwyl i'r rhan fwyaf o ddyfarniadau fod rhwng £2000 ac £8000. Gofynnwn i sefydliadau ddangos bod arian cyfatebol ar ffurf arian parod neu mewn nwyddau o 10% yn ei le, neu ddangos tystiolaeth gref o weithio mewn partneriaeth yn y prosiect.

Sut ydw i'n gwneud cais am arian?

Un cam sydd i broses ymgeisio Atsain. Dyma rannau'r broses ymgeisio:

1. Cyflwynwch eich ffurflen gais, eich cyllideb a'ch dogfennau ategol ar-lein drwy ein porth grantiau erbyn 5pm ar y dyddiad cau. Mae ein ffurflen gais yn cynnwys amryw gwestiynau sydd angen eu hateb, ond bydd gofyn i chi hefyd gyflwyno dogfen Word heb fod yn fwy na thair ochr A4 a fydd yn cyflwyno atebion i'r cwestiynau allweddol.

Gall y wybodaeth hon hefyd gael ei chyflwyno ar ffurf fideo, PowerPoint neu sain. Bydd hefyd angen i chi gyflwyno cyllideb ac amryw ddogfennau ategol y gellir eu cyflwyno'n ysgrifenedig yn unig.

2. Caiff eich ffurflen gais ei hasesu gan ein panel, a bydd penderfyniad yn cael ei wneud ynglŷn ag a yw'n derbyn cyllid neu beidio.

3. Byddwn yn anfon e-bost atoch i roi gwybod i chi am y penderfyniad. Os nad ydych yn llwyddiannus, byd hyn yn cynnwys adborth ar eich cais. Os byddwch yn llwyddiannus, bydd hyn yn amlinellu'r camau nesaf ynglŷn â sut i gytuno i dderbyn eich grant a derbyn eich taliad cyntaf.

Sut mae prosiectau'n cael eu hasesu?

Mae cronfa Atsain yn eithriadol o gystadleuol. Yng ngwanwyn 2022, tua thraean o'r sefydliadau a wnaeth gais i ni y gwnaethom ni eu hariannu.

Bydd ein panel asesu yn gwneud penderfyniad ar sail faint o angen sydd am eich gwaith, a pha mor llwyddiannus, yn eu barn nhw, fydd y prosiect ar fynd i'r afael â rhwystrau penodol i gerddoriaeth i bobl ifanc.

Ein nod yw ariannu amrywiaeth mor eang â phosibl o sefydliadau i fynd i'r afael â'r holl rwystrau gwahanol i gerddoriaeth y mae pobl ifanc yn eu hwynebu. Rydym yn ystyried lleoliad, maint, iaith, genre a chynulleidfaedd targed y prosiect fel ein bod yn ariannu portffolio cytbwys o sefydliadau.

Bydd eich prosiect yn cael ei asesu ar y canlynol:

- A yw'r sefydliad a'r prosiect yn gymwys?
- A yw'r prosiect yn cyflawni ein blaenoriaethau?
- A yw wedi dangos bod angen y prosiect?
- A oes canlyniadau cryf a realistig?
- A yw'n dangos gwaith partneriaeth effeithiol?
- A yw lleisiau pobl ifanc yn cael eu clywed yn eich prosiect?
- A oes strategaeth werthuso gadarn?
- Ydych chi wedi meddwl am waddol neu gynaliadwyedd eich prosiect?
- A oes cyllideb realistig a chywir ar gyfer y prosiect?
- A yw'r holl ddeunydd ategol gofynnol wedi'i ddarparu?
- A oes polisi diogelu cadarn ar waith?
- Oes gennych chi hanes sefydliadol da?
- A yw eich cyfrifon yn dangos rheolaeth ariannol dda?

Ein nod yw ariannu amrywiaeth mor amrywiol â phosibl o sefydliadau er mwyn mynd i'r afael â'r holl rwystrau gwahanol i gerddoriaeth y mae pobl ifanc yn eu hwynebu. Rydym yn ystyried lleoliad, iaith, genre a chynulleidfaedd targed y prosiectau er mwyn ariannu portffolio cytbwys o sefydliadau.

Ar beth allaf i wario'r arian?

Byddwn yn ariannu costau a ddaw o ganlyniad uniongyrchol i'r prosiect, fel costau staff, ffioedd llawrydd, llogi lleoliadau, prynu offer, costau marchnata ac ati.

Byddwn hefyd yn gwneud cyfraniad tuag at y gorbenion sy'n helpu i gefnogi'r prosiect arfaethedig, fel Adnoddau Dynol, rhent swyddfa a chyfleustodau, systemau TG, llywodraethu, yswiriant a ffioedd archwilio, hyd at uchafswm o 10% o gyfanswm costau'r prosiect.

Ni fyddwn yn ariannu gweithgareddau sydd wedi digwydd cyn i chi gael cadarnhad o ddyfarniad grant, costau sy'n cael eu hysgwyddo wrth wneud eich cais, costau cyfalaf sylweddol, benthyciadau neu daliadau llog, costau TAW y gellir eu hadennill, gweithgareddau sy'n hyrwyddo credoau crefyddol neu wleidyddol pleidiol.

A allaf wneud cais am fwy nag un prosiect?

Gall sefydliadau wneud cais am un grant y flwyddyn.

A allaf wneud cais am ail grant ar gyfer yr un prosiect?

Bydd angen i sefydliadau sy'n ailymgeisio am grant arall gael sgwrs gyda ni i ddangos angen newydd am y gwaith, neu sut y bydd y gwaith newydd yn adeiladu ar y canlyniadau a gyflawnwyd eisoes.

A allaf wneud cais eto os oeddwn yn aflwyddiannus?

Gallwch. Os bydd eich cais yn aflwyddiannus, byddwn yn rhoi adborth i chi ac efallai y byddwn yn argymhell eich bod yn gwneud addasiadau i'ch prosiect er mwyn gwella ei siawns o lwyddo mewn cylch ariannu yn y dyfodol.

A oes disgwyl i mi ysgrifennu nifer y cyfrif geiriau yn llawn?

Na, ond dylech gynnwys yr holl wybodaeth berthnasol y bydd ei hangen ar ein panel i wneud penderfyniad cwbl wybodus.

Beth sy'n digwydd os ydw i'n llwyddiannus?

Cewch eich cefnogi drwy gydol eich grant gan ein Rheolwr Rhaglen.

Yn gyntaf, byddwn yn darparu cytundeb ariannu a ffurflen gofyniad grant cychwynnol i chi ei llenwi.

Mae'n bosib y bydd gofynion penodol angen eu cyflawni cyn y gallwn wneud penderfyniad terfynol am eich grant. Efallai y bydd angen i chi ddarparu dogfennau pellach neu wneud newidiadau i'ch ffurflen gais.

Bydd amserlen dalu ar gyfer eich prosiect yn cael ei darparu. Bydd hyn yn dibynnu ar hyd eich prosiect a swm y grant. Gallai prosiectau mwy a hirach gael eu talu mewn rhandaliadau, a bydd prosiectau llai a byrrach yn derbyn 75% o'u grant ymlaen llaw, a'r 25% sy'n weddill yn cael ei dalu ar ôl i adroddiad terfynol y prosiect gael ei dderbyn.

Bydd pob ymgeisydd yn cael ei annog i ymuno â Rhwydwaith Ymarfer Atsain a fydd

yn rhedeg ochr yn ochr â'r gronfa gan ganiatáu i brosiectau sy'n cael eu hariannu rannu'r hyn maen nhw'n ei ddysgu, meithrin perthynas rhwng aelodau'r rhwydwaith ac ar draws y sector ehangach, ac adeiladu arferion gorau yng Nghymru.

Beth yw'r terfynau amser a'r amserlen?

Mae'r panel yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn.

Mae'r cylch ariannu hwn yn cau am **5pm ddydd Llun 3 Hydref 2022**.

Mae'r panel yn cyfarfod ym mis Tachwedd a dylai'r ymgeiswyr gael eu hysbysu a ydynt yn llwyddiannus ar ddechrau Rhagfyr fan hwyraf.

Gyda phwy y gallaf gysylltu i ofyn cwestiwn?

I gael rhagor o gyngor a chymorth, cysylltwch â Rebecca Rickard, Rheolwr Rhaglen fan yma: rebecca.rickard@anthem.wales